Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys

## *Crynodeb o Wybodaeth Ariannol 2015/16*

*(Cyfrifon Grŵp)*

**Cyflwyniad**
Ar 15 Tachwedd 2012, etholwyd Mr Christopher Salmon yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys. Cychwynnodd ar ei swydd ar 22 Tachwedd 2012, a dyna pryd y daeth Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys i ben. Prif gyfrifoldeb y Comisiynydd yw sicrhau y cynhelir gwasanaeth heddlu lleol effeithlon ac effeithiol ledled Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys, a dal Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys i gyfrif am weithredu dyletswyddau heddlu gweithredol o dan Ddeddf Heddlu 1996.
Ar 5 Mai 2016, etholwyd Mr Dafydd Llywelyn yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu newydd ar gyfer Dyfed-Powys, a bydd yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon, er na gychwynnodd ar ei swydd tan ar ôl i flwyddyn ariannol 2015/16 ddod i ben.
Diben y Crynodeb o Wybodaeth Ariannol hwn yw rhoi mewnwelediad i rai o agweddau mwyaf arwyddocaol perfformiad y Comisiynydd (roedd Mr Christopher Salmon mewn swydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 gyfan) a'r sefyllfa ariannol fel y'u cyflwynir yn fanwl yn y Datganiad o Gyfrifon. Mae pob cyfeiriad at y Comisiynydd sy'n dilyn yn cyfeirio at Mr Christopher Salmon.

**Datganiad o Gyfrifon**
Cyfrifon 2014/15 yw'r bedwaredd set o gyfrifon statudol i'w cyhoeddi o dan y trefniadau llywodraethu newydd. Fel endidau cyfreithiol ar wahân (corfforaeth undyn), mae'n rhaid i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gynhyrchu eu Datganiadau o Gyfrifon eu hunain, gyda'r Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu Cyfrifon Grŵp (cynhwysir cyfrifon y Comisiynydd o fewn y rhain).

Mae'r cyfrifon yn rhoi manylion pellach ynghylch materion ariannol y Comisiynydd/Grŵp ac yn cynnwys:

- **Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol**, mae hyn yn nodi barn yr archwilydd annibynnol, Swyddfa Archwilio Cymru, ynghylch pa un ai a yw'r cyfrifon Grŵp a gyflwynir yn rhoi 'safbwynt gwir a theg' o sefyllfa ariannol a gweithrediadau'r Comisiynydd ar gyfer 2015/16;
- **Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon;** mae'r Datganiad hwn yn nodi cyfrifoldebau'r Comisiynydd a'i Brif Swyddog Ariannol;
- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol;** nid yw'r datganiad hwn yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon, ond mae'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut y mae'r Grŵp yn cynnal busnes yn unol â safonau cywir ac yn cyflwyno canfyddiadau o'r adolygiad blynyddol o effeithlonrwydd y systemau o reoli mewnol;
- **Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn;** mae'r Datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Grŵp, wedi'u dadansoddi'n "gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy" (arian y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy (arian na ellir ei ddefnyddio er mwyn darparu gwasanaethau trwy weithredu safonau cyfrifyddu, er enghraifft, y gronfa bensiwn wrth gefn sy'n cyfateb a'r rhwymedigaeth pensiwn);
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;** mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r adnoddau sydd wedi'u cynhyrchu a'u defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau plismona a lleihau trosedd yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys pob cost dydd i ddydd ac incwm perthnasol ar sail croniad, yn ogystal â thrafodion sy'n mesur gwerth asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a gwerth amcanol real buddion ymddeol a enillwyd gan weithwyr yn ystod y flwyddyn;
- **Mantolen** - mae hyn yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Grŵp ar ddyddiad y Fantolen. Cydweddir yr asedau net (asedau wedi tynnu rhwymedigaethau) gan y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac annefnyddiadwy;

- **Datganiad Llif Arian** - mae'r datganiad hwn yn crynhoi newidiadau i arian ac arian cyfatebol yn ystod y cyfnod adrodd;
- **Cronfa Bensiwn yr Heddlu –** mae hyn yn crynhoi'r incwm a'r gwariant mewn perthynas â phensiynau'r heddlu yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r cyfrif yn dangos y grant ychwanegol sy'n ddyledus gan y grŵp i'r Cyfrif Cronfa Bensiwn. Mae'r Swyddfa Gartref yn ad-dalu'r Grŵp am arian a dalwyd i'r Cyfrif Cronfa Bensiwn, ac i bob pwrpas yn gwarantu'r diffyg ar y Cyfrif Cronfa Bensiwn. Byddai'r arfer hwn yn gweithio i'r gwrthwyneb pe bai'r Cyfrif Cronfa Bensiwn yn dangos gwarged ar ddiwedd y flwyddyn;
- **Nodiadau i'r Cyfrifon –** mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n esbonio ymhellach yr eitemau a gynhwysir o fewn y prif ddatganiadau ariannol gyda'r nod o wella dealltwriaeth y darllenydd o'r prif ddatganiadau ariannol;
- **Rhestr Termau** – nid yw hyn yn rhan o'r Datganiad o Gyfrifon, ond mae'n cael ei gynnwys er mwyn cynorthwyo â dealltwriaeth y darllenydd o'r Datganiad o Gyfrifon.

**Perfformiad Ariannol y Grŵp**
Ym mis Chwefror 2015, gosododd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 o £93.332 miliwn. Ar ôl derbyn Grant o £37.511 miliwn gan y Swyddfa Gartref, Cyfraddau Cenedlaethol Annomestig o £11.362 miliwn a Grant Cymorth Refeniw o £1.426 miliwn, codwyd £43.033 miliwn o'r Dreth Gyngor.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn crynhoi'r sefyllfa derfynol o ran alldro ar gyfer 2015/16 o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y Prif Gwnstabl ac ar gyfer y Grŵp yn gyfan gwbl. Drwyddo draw llwyddodd y Grŵp i sicrhau cyllideb gytbwys.

Mae'r adroddiad hwn ar fformat dadansoddiad goddrychol, a ddefnyddir gan reolwyr mewnol ar gyfer dibenion adrodd yn erbyn y gyllideb. Mae'r fformat hwn yn wahanol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a darperir cysoniad rhwng y ddau fformat yn y *Symiau a adroddwyd ar gyfer penderfyniadau pennu adnoddau* i'r Cyfrifon.

Pwyntiau allweddol i'w nodi yn y tabl sy'n dilyn:

Comisiynydd

- Gwariodd Swyddfa'r Comisiynydd £112,000 yn llai na'r hyn a gyllidwyd ar gyfer gwario ar weithwyr. Mae hyn oherwydd anawsterau a brofwyd o ran llenwi swyddi gwag ddechrau'r flwyddyn ac o ganlyniad i newid y strwythur adrannol yn ystod y flwyddyn.
- Roedd gwariant nad yw'n gysylltiedig â chyflog (heb gynnwys comisiynu) £76,000 islaw'r gyllideb, a hynny'n bennaf oherwydd gwariant o £36,000 ar system feddalwedd a oedd yn bodloni'r gofyniad i fod yn gyfalaf. Gan hynny, nid oedd angen ei ariannu drwy'r gyllideb refeniw. Yn ogystal, gweithredwyd cyfyngiad ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ystod y cyfnod cyn-etholiad.
- Yn gyffredinol, mae gwasanaethau a gomisiynir wedi costio £210,000 yn llai na'r gyllideb. Mae hyn yn ymwneud â nifer o ffactorau – arweiniodd oedi o ran cychwyn y cynllun cyswllt alcohol a'r cynllun dargyfeirio rhag alcohol at £60,000 o wariant yn cael ei ddwyn ymlaen i 2016/17. Ni fydd gwaith ar y panel adsefydlu ar gyfer troseddwyr ifainc yn cychwyn tan 2016/17, a daeth cynllun cymorth gwirfoddol i ben yn gynnar. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd ag arbedion staff, wedi creu gweddill y tanwariant.
- Derbyniodd y Comisiynydd fwy o incwm na'r hyn a gyllidwyd o'r cyrsiau ailhyfforddi gyrwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac o ganlyniad, trosglwyddwyd £557,000 i gronfeydd wrth gefn. Cynhaliodd y Comisiynydd ymgynghoriad cyhoeddus yn 2015 i bennu sut ddylai'r arian gael ei wario, a phleidleisiodd y cyhoedd dros ail-fuddsoddi'r arian mewn cynlluniau diogelwch y

ffyrdd. Gan hynny, lansiwyd y cynllun Y Ffordd i Ddiogelwch ac mae'n ariannu mentrau sy'n helpu i wneud ffyrdd yn Nyfed-Powys yn fwy diogel.

| | Grŵp | | | Comisiynydd | | | P |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb | Gwirioneddol | Amrywiad | Cyllideb | Gwirioneddol | Amrywiad | Cyllideb Gw |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau Gweithwyr | 88,489 | 87,395 | 1,094 | 853 | 741 | 112 | 87,636 |
| Costau Adeiladau | 3,563 | 3,706 | (143) | 0 | 0 | 0 | 3,563 |
| Costau Trafnidiaeth | 2,757 | 2,155 | 602 | 17 | 13 | 4 | 2,740 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 8,395 | 8,480 | (85) | 219 | 147 | 72 | 8,176 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract | 3,667 | 5,175 | (1,508) | 1,560 | 1,350 | 210 | 2,106 |
| **Cyfanswm costau gweithredu** | **106,871** | **106,911** | **(40)** | **2,649** | **2,251** | **398** | **104,222** |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 493 | 12,121 | (11,628) | 0 | 41 | (41) | 493 |
| Amhariadau | 0 | (40) | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Elw/Colledion ar waredu ar asedau nad ydynt yn gyfredol | 0 | (268) | 268 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau llog ar fenthyg allanol | 575 | 325 | 250 | 0 | 0 | 0 | 575 |
| **Cyllido cyfalaf ac amhariadau** | **1,068** | **12,138** | **(11,070)** | **0** | **41** | **(41)** | **1,068** |
| Neilltuadau: | | | | | | | |
| Neilltuadau i/o'r gronfa pensiwn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniadau i/o'r cronfeydd wrth gefn | (3,054) | (12,507) | 9,453 | 548 | 1,505 | (957) | (3,602) |
| **Neilltuadau** | **(3,054)** | **(12,507)** | **9,453** | **548** | **1,505** | **(957)** | **(3,602)** |
| Ffioedd, costau ac incwm gwasanaeth arall | (4,080) | (5,524) | 1,445 | (161) | (718) | 557 | (3,919) |
| Grantiau'r Llywodraeth (Refeniw a Chyfalaf) | (7,474) | (7,686) | 212 | (576) | (619) | 43 | (6,897) |
| **Cyfanswm Incwm** | **(11,554)** | **(13,210)** | **1,657** | **(737)** | **(1,337)** | **600** | **(10,816)** |
| **Gofyniad Cyllideb** | **93,332** | **93,332** | **0** | **2,460** | **2,460** | **0** | **90,872** |
| **Ariannwyd gan:** | | | | | | | |
| Grant yr Heddlu | (37,511) | (37,511) | 0 | | | | |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | (11,362) | (11,362) | 0 | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | (1,426) | (1,426) | 0 | | | | |
| Y Dreth Gyngor | (43,033) | (43,033) | 0 | | | | |
| **Cyfanswm Cyllido** | **(93,332)** | **(93,332)** | **0** | | | | |

Prif Gwnstabl

- Costau Gweithwyr: Roedd y costau staffio gwirioneddol £982,000 yn is na'r gyllideb ddiwygiedig a osodwyd ar gyfer 2015/16. O fewn hyn, mae amrywiad wedi bod yn amlwg ar draws penawdau cyflog, goramser ac argost ar gyfer pob grŵp staff. Roedd gwariant o ran ymddeoliad swyddogion heddlu ar sail iechyd yn

is na'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn o oddeutu £412,000, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r tanwariant o fewn costau gweithwyr.

- Costau Adeiladau: Gorwariodd yr Heddlu £143,000 yn erbyn y gyllideb adeiladau ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Roedd rhan o'r gorwariant yn ymwneud â'r rhaglen waith gyfalaf ar gyfer dalfa Sir Gaerfyrddin yn cael ei ohirio. Mae hyn wedi arwain at fwy o gostau refeniw ond costau cyfalaf is nag a ragamcanwyd pan osodwyd y gyllideb.

- Costau Trafnidiaeth: Tanwariodd yr heddlu yn erbyn y gyllideb wreiddiol ar gyfer costau trafnidiaeth o oddeutu £598,000. Elwodd yr heddlu o ostyngiadau sylweddol o ran costau tanwydd yn ystod y flwyddyn a gyfrannodd tua £320,000 tuag at y ffigwr arbedion. Yn ychwanegol at hyn, ymunodd yr heddlu â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu o fis Ionawr 2016 sydd wedi arwain at daliadau ar gyfer cynnal a chadw a chefnogi'r hofrennydd yn cael eu disodli gan un taliad cyfansawdd o'r pennawd "Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract" o'r dyddiad hwn.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau: Mae'r tabl uchod yn dangos bod yr Heddlu wedi gorwario yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig o tua £157,000. Roedd y gorwariant bychan hwn o ychydig llai na 2% o ganlyniad i nifer o amrywiadau llai a ledaenwyd ar draws nifer o godau cyllideb.

- Gwasanaethau Asiantaeth a dan Gontract: Gorwariodd y pennawd hwn o £1.719 miliwn, a hynny'n bennaf oherwydd effaith gyllidebol terfynu'r cytundeb Menter Ariannu Breifat Rhydaman. Ariannwyd hyn gan gyfraniad ychwanegol o gronfeydd wrth gefn. Yn ogystal, talwyd £222,000 ar gyfer gwasanaeth Cefnogaeth o'r Awyr i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer chwarter olaf y flwyddyn ariannol. Cyfrannodd rhai cynyddiadau o ran cost ar gyfer darparu cymorth meddygol mewn dalfeydd a gweithredu gwasanaeth oedolion priodol at y gorwario hwn hefyd.

- Ariannu Cyfalaf: Mae'r pennawd hwn wedi'i effeithio gan benderfyniad y Comisiynydd i ad-dalu'r holl fenthyca hanesyddol sy'n weddill o gronfeydd wrth gefn yn y flwyddyn. Arweiniodd hyn at effaith gyllidebol untro ychwanegol o £7.0 miliwn. Yn ogystal, mae'r sefyllfa gorwario yn erbyn y pennawd hwn yn cael ei effeithio gan ad-dalu'r atebolrwydd sy'n weddill a ddelir yn erbyn y cytundeb Menter Ariannu Breifat Rhydaman o £2.470 miliwn. Rhoddwyd swm ychwanegol o £1.250 miliwn naill ochr o gronfeydd wrth gefn fel cyfraniad tuag at ariannu'r gwario cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Er bod hyn wedi'i gynllunio, nid oedd y trosglwyddiad hwn wedi'i adlewyrchu yng nghyllideb refeniw wreiddiol yr Heddlu.

- Penawdau Incwm: Trosglwyddwyd cronfa wrth gefn a glustnodwyd o £848,000 fel incwm mewn perthynas â GanBwyll, a weinyddir bellach gan yr Heddlu. Hefyd, derbyniwyd incwm ychwanegol mewn perthynas â threfniadau rhannu safle hanesyddol.

Darperir manylion pellach mewn perthynas â gweithrediadau'r Prif Gwnstabl yn Natganiad o Gyfrifon y Prif Gwnstabl ar gyfer 2015/16.

### Cronfeydd Wrth Gefn

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16, gostyngodd y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £12.6 miliwn o £45.5 miliwn i £32.9 miliwn. Y ddau drafodyn mwyaf sylweddol a oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn oedd:

- Ad-dalu Gofyniad Ariannu Cyfalaf. Roedd yr ad-daliad yn £7.3 milwn gyda £7 miliwn yn cael ei ariannu gan gronfeydd wrth gefn a £0.3 miliwn pellach o'r

gyllideb refeniw. Bydd y trafodyn hwn yn arbed gorfod gwneud taliadau Darpariaeth Refeniw Lleiaf o £300,000 y flwyddyn.

- Terfynu Menter Ariannu Breifat Gorsaf Heddlu Rhydaman. Terfynwyd y Fenter Ariannu Breifat ar 19 Mehefin 2015. Defnyddiwyd £3.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu terfynu'r fenter, ac wrth wneud, cyflwynir arbedion refeniw blynyddol o £500,000.

Y gostyngiad sy'n weddill mewn cronfeydd wrth gefn yw effaith net gweithgareddau refeniw a chyfalaf yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â derbyn cyfrifoldeb dros weinyddu'r bartneriaeth GanBwyll a arweiniodd at drosglwyddo eu cronfa wrth gefn o £848,000 i mewn i'r cyfrifon hyn.

## Gwario Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf

Yn ogystal â gwariant refeniw, ceir arian ar asedau megis adeiladau a cherbydau sydd â gwerth tymor hir i'r Comisiynydd.

Pob blwyddyn, mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo rhaglen gyfalaf sy'n manylu ynghylch gwariant. Yn 2015/16, mabwysiadwyd y gyllideb gyfalaf o £9.373 miliwn gan y Comisiynydd.

Yn ystod 2015/16 y gyllideb gyfalaf wirioneddol oedd £2,920 miliwn. Dangosir y prif amrywiadau o'r gyllideb isod:

| Categori | Rhaglen Gyfalaf | Gwariant | (Dros) / Tan | Rheswm am y gor/tan wariant |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tir ac Adeiladau | 4,690 | 169 | 4,521 | Gohiriwyd darparu dalfa newydd yn Sir Gaerfyrddin ar ôl methu â phrynu tir addas ar gyfer adeiladu'r cyfleuster newydd. Mae oedi o ran cytundebau a materion caffael hefyd wedi oedi'r rhaglen adnewyddu ystadau. Mae hyn wedi arwain at fwy o gostau refeniw ond costau cyfalaf is na'r hyn â ragamcanwyd wrth osod y gyllideb. |
| Cerbydau | 1,535 | 1,454 | 81 | Mae oedi o ran cyflwyno cerbydau wedi achosi llithriad bach yn y rhaglen hon. |
| Dodrefn ac Offer | 3,148 | 1,297 | 1,851 | Bu oedi o ran cyflwyno camerâu fideo a wisgir ar y corff a fideo yn y car. Mae'r rhaglen hwn nawr yn symud yn ei blaen gyda'r gyllideb yn cael ei dwyn ymlaen i 2016/17. |
| **Cyfanswm** | **9,373** | **2,920** | **6,453** | |

Cyllidwyd y gwariant cyfalaf hwn fel a ganlyn:

| Categori | Rhaglen Gyfalaf | Ariannu | (Dros) / Tan | Rheswm am y gor/tan wariant |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,500 | 34 | 1,466 | Disgwyliwyd y byddai Gorsaf Heddlu Caerfyrddin yn cael ei werthu yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, nid yw'r gwerthiant wedi'i gwblhau eto. Mae oedi o ran y rhaglen adnewyddu hefyd wedi arwain at oedi o ran gwerthiant adeiladau eraill. Nid oedd angen tynnu arian o gyllid cyfalaf fel y cyllidwyd ar ei gyfer |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | oherwydd rhaglen gwaith cyfalaf llai. |
| Cyllido Refeniw Uniongyrchol | 418 | 816 | (398) | Gwnaed cyfraniad mwy na'r disgwyl. |
| Credyd Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | 114 | 29 | 85 | Arweiniodd oedi o ran ymuno â Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu at gredyd llai'n cael ei dalu yn 2015/16 gyda chredyd o £114,000 nawr yn ddyledus yn 2016/17. |
| Benthyca | 520 | 0 | 520 | Nid oedd angen hyn. |
| Cronfeydd Cyfalaf wrth gefn | 5,696 | 1,436 | 4,260 | Oherwydd oedi o ran y rhaglenni cyfalaf, nid oedd angen defnyddio'r cronfeydd wrth gefn i'r graddau a ragamcanwyd pan osodwyd y gyllideb. |
| Grant a Chyfraniadau Cyfalaf | 1,125 | 605 | 520 | Roedd gwariant ar ddata symudol a ariennir gan grant yn llai na'r hyn a gyllidebwyd. |
| **Total** | **9,373** | **2,920** | **6,453** | |

### Taliadau Dewisol

Yn genedlaethol, codwyd pryderon ynghylch cyfreithlondeb rhai lwfansau dewisol a dalwyd i nifer bychan o uwch swyddogion mewn heddluoedd ledled Cymru a Lloegr. Cymeradwyodd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys y Polisi dd-daliadau Prif Swyddogion, ond yn dilyn pryderon a godwyd, ceisiwyd cyngor cyfreithiol ynghylch cyfreithlondeb y taliadau dewisol gan y Comisiynydd. Roedd y cyngor yn cadarnhau y gallai'r taliadau dewisol fod yn anghyfreithlon, ac yng ngoleuni hyn, stopiwyd lwfansau o'r fath sy'n daladwy i brif swyddogion hyd nes yr eglurwyd y sefyllfa gyfreithiol yn llawn. Fodd bynnag, ni aeth yr achos prawf cyntaf ynghylch y mater hwn i'r llys fel y disgwyliwyd. Gan hynny, ar ôl adolygu'r dewisiadau, y costau a'r canlyniadau posibl, penderfynodd y Comisiynydd beidio â dilyn y mater hwn ymhellach a hysbyswyd Prif Swyddogion a oedd wedi derbyn lwfansau o'r fath am y penderfyniad hwn, gan ddod â'r mater i ben.

### Edrych Ymlaen

Roedd y setliad grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 yn well na'r disgwyl, gyda gostyngiad o 0.6% yn nhermau ariannol yn y grant craidd. Fodd bynnag, mae dal pryderon ynghylch effaith bosibl adolygiad o ariannu fformiwla. Cychwynnodd ymgynghoriad ar fformiwla newydd yn 2015/16, ond cafodd ei ohurio ar ôl dod o hyd i gamgymderiadau yn fformiwla'r Swyddfa Gartref. Gallai newid yn y fformiwla effeithio'n sylweddol ar lefel y cyllid y mae'r Comisiynydd yn derbyn ar hyn o bryd. Rydyn ni'n disgwyl gwybodaeth bellach am amseru unrhyw ymgynghoriad ynghylch fformiwla newydd, newu weithredu fformiwla newydd, yn y dyfodol.

Wrth osod elfen blismona'r dreth gyngor (a elwir yn 'praesept') roedd y Comisiynydd yn ymwybodol o'r angen ar gyfer cydbwyso'r pwysau ar gyllidebau cartrefi a'r angen i ddarparu gwasanaeth plismona cyhoeddus effeithiol. Hefyd, ystyriodd lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn. Arweiniodd hyn at rewi'r praesept treth gyngor sy'n daladwy gan breswylwyr Dyfed-Powys ar lefelau 2015/16.

Mae'r gyllideb amlinellol a bennwyd ar gyfer 2016/17 yn cynnwys gostyngiadau cost cylchol o £3.129 miliwn i'w gwneud o fewn yr Heddlu. Cyhoeddwyd y Cynllun Ariannol

Tymor Canolig sy'n cynnwys y cyfnod o 2016/17 i 2019/20 ochr yn ochr â'r gyllideb ar gyfer 2016/17 ac mae hyn yn dangos ansicrwydd sylweddol mewn perthynas â'r cyllid fydd ar gael i'r Comisiynydd yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad i benderfyniad y Comisiynydd i leihau lefel y cronfeydd wrth gefn drwy beidio â chynyddu'r praesept dros y blynyddoedd diwethaf, ac oherwydd effaith rhaglen ystadau gyfalaf sylweddol, disgwylir i gronfeydd wrth gefn leihau o gyfanswm o £32.862 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar ddiwedd y flwyddyn hon i £6.018 miliwn ddiwedd 2019/2.